Teitl y Swydd: Chwaraewr ac Hyfforddwr Tenis

Uned/Ysgol: Chwaraeon Met Caerdydd

Cyflog: 2A/B

HERA: CMETS146

**Prif bwrpas y rôl**

I gefnogi datblygiad chwaraewyr tenis iau Cymru a chryfhau rhaglen tenis perfformiad Prifysgol Metropolitan Caerdydd drwy gyfuno cynrychiolaeth chwarae lefel uchel â hyfforddiant effeithiol o fewn Rhaglen Hyfforddi Genedlaethol 14+ Cymru.

Bydd y Chwaraewr/Hyfforddwr Tenis yn cefnogi hyfforddiant o ansawdd uchel ar draws Llwybr Cenedlaethol 14+ Tennis Cymru a gynhelir ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Byddant hefyd yn gweithredu mewn amgylchedd perfformiad uchel, gan gynrychioli Prifysgol Metropolitan Caerdydd mewn cystadlaethau BUCS a'r Gynghrair Genedlaethol. Wedi'i leoli ar Gampws Cyncoed, mae'r rôl yn cyfrannu at y model perfformiad integredig rhwng Met Caerdydd a Tennis Cymru, gan gefnogi datblygiad chwaraewyr iau, gwella perfformiad tenis y brifysgol a hyrwyddo'r weledigaeth a rennir o gynhyrchu chwaraewyr cystadleuol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

**Cyfrifoldebau Hyfforddi**

- O dan arweinyddiaeth y Prif Hyfforddwr Perfformiad Cenedlaethol y Brifysgol, byddwch yn cefnogi sesiynau hyfforddi i chwaraewyr iau ar Lwybr Perfformiad Cenedlaethol 14+ Tenis Cymru a Met Caerdydd.

- O dan arweinyddiaeth y Prif Hyfforddwr Perfformiad Cenedlaethol y Brifysgol, byddwch yn cefnogi sesiynau hyfforddi i chwaraewyr sy’n fyfyrwyr yn y brifysgol ar raglen berfformiad BUCS Tenis Cymru a Met Caerdydd.

- Cefnogi datblygiad amgylchedd hyfforddi perfformiad uchel sy'n hyrwyddo ymroddiad, moeseg gwaith a gwerthoedd chwaraeon ymhlith yr holl gyfranogwyr.

**Cyfrifoldebau Chwarae**

- Cynnal safon chwarae i gynrychioli Prifysgol Met Caerdydd yn BUCS a chystadlaethau perthnasol eraill

**Dyletswyddau Cyffredinol**

- Cydymffurfio â diogelu, iechyd a diogelwch ac Achrediad Hyfforddwyr.

- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau ychwanegol sy'n briodol i'r rôl, fel y gofynnir gan Bennaeth Tenis Met Caerdydd neu Bennaeth Perfformiad Tenis Cymru.

- Cwblhau Gradd Meistr llawn amser neu ran-amser ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd

- Cynnal ymagwedd hyblyg tuag at hyfforddi/chwarae, gyda dealltwriaeth y gall llwyth gwaith gynyddu neu leihau yn ystod gwahanol adegau o'r tymor

- Cefnogi Cydlynydd Tenis y Brifysgol i yrru ymgysylltiad myfyrwyr a hyrwyddo cyfleoedd datblygu'r gweithlu

**<u>Manyleb person</u>**

**Cymwysterau Hanfodol / Aelodaeth Broffesiynol**

- Rhaid cwrdd â gofynion mynediad ar gyfer gradd Meistr a bod wedi cofrestru ar raglen Meistr ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, neu ar fin dechrau un, am gyfnod y penodiad.

- Cymhwyster hyfforddi tenis wedi'i achredu gan LTA (o leiaf Lefel 2 gydag ymrwymiad i weithio tuag at Lefel 3 neu Lefel 3+ cyfredol).

**Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau Hanfodol**

1. Profiad blaenorol o gystadlu ar lefel perfformiad uchel ym maes tenis.

2. Profiad amlwg yn hyfforddi chwaraewyr tenis iau neu lefel perfformiad.

3. Dealltwriaeth o strwythurau tenis BUCS a disgwyliadau perfformiad ar lefel prifysgol.

4. Y gallu i weithio o dan oruchwyliaeth i gynorthwyo sesiynau hyfforddi cynhwysol, diogel ac effeithiol.

5. Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol.

6. Sgiliau trefnu cryf a'r gallu i reoli ymrwymiadau deuol fel chwaraewr a hyfforddwr.

7. Yn dangos angerdd parhaus am tenis a bwriad ymroddedig i ddatblygu gyrfa hirdymor o fewn y diwydiant.

**Dymunol**

1. Cymhwyster Hyfforddi Tenis LTA Lefel 3+.

2. Gwybodaeth am y dirwedd tenis yn y DU, gan gynnwys llwybrau chwaraewyr, strwythurau cystadleuaeth, a fframweithiau datblygu.

3. Profiad o wasanaethau cymorth chwaraeon perfformiad.

4. Safon chwarae a nodir gan sgôr UTR o 11+ (gwrywaidd) neu 8+ (benywaidd).

**Gofynion sgiliau Cymraeg**
Mae’r Gymraeg yn hanfodol i’n myfyrwyr a’n staff ac mae’n rhan allweddol o’n darpariaeth a’n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn glir yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifydd | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**
Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS uwch.

**Gwybodaeth ategol**
Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Nid yw'r disgrifiad swydd a'r fanyleb person hwn wedi'i fwriadu i fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol a'u hymddygiad ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos cadw at ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w gyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.